# Sut i Asesu Risg

## Asesu'r Risg

Pan fydd peryglon wedi cael eu nodi, gwnewch nodyn o unrhyw ragofalon presennol sydd wedi cael eu sefydlu i reoli'r peryglon hynny. Nesaf bydd angen i chi geisio nodi beth fyddai'r 'canlyniad gwaethaf' pe byddai rhywun yn cael ei niweidio gan y perygl.

**Y pum canlyniad gwaethaf posibl yw**:

| | | |
|---|---|---|
| 5 | **Marwolaeth** | Marwolaeth cyfranogwr neu unrhyw berson arall tra'n gwneud y gweithgaredd. |
| 4 | **Anaf Difrifol** | Anaf mawr, fel torri asgwrn (ar wahân i fysedd neu fysedd traed), colli ymwybyddiaeth, trychiad, datgymaliad, anaf o ganlyniad i drais, colli golwg neu anaf arall i'r llygad, derbyn i'r ysbyty am fwy na 24 awr. |
| 3 | **Anaf Amser Coll** | Anafiadau nad ydynt wedi eu rhestru uchod ond sydd yn golygu bod y cyfranogwr i ffwrdd o'r gwaith neu'n methu gwneud eu gwaith arferol am fwy na tri diwrnod yn olynol ar ôl y ddamwain. Gallai'r anafiadau gynnwys troi pigwrn, cefn poenus, torri bys troed, neu rwygiadau difrifol i'r llaw. |
| 2 | **Mân Anaf** | Anafiadau nad ydynt yn arwain at y cyfranogwr yn methu gwneud eu gwaith arferol am fwy na tri diwrnod yn olynol, er enghraifft, toriad bach, llosg bach neu gleisio. |
| 1 | **Dim Anaf** | Fel y nodwyd. Yn bosibl os gellir dileu'r perygl. |

Nesaf, bydd angen i chi benderfynu pa mor debygol yw'r perygl o achosi niwed, unwaith bydd yr holl fesurau rheoli presennol wedi cael eu hystyried, fel a ganlyn;

| 5 | 4 | 3 | 2 | 1 |
|---|---|---|---|---|
| Sicr/ar fin digwydd | Tebygol iawn | Tebygol | Annhebygol | Annhebygol iawn |

Yna caiff y sgôr risg ei gyfrifo trwy luosi'r Difrifoldeb gyda'r Tebygolrwydd, ac mae'r canlyniad yn cael ei ddosbarthu yn y ffordd ganlynol;

| | |
|---|---|
| 20-25 | Uchel iawn |
| 15-19 | Uchel |
| 5-14 | Canolig |
| 3-4 | Isel |
| 1-2 | Isel iawn |